OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2190 (Cy.174)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol (Cymru) (Diwygio) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *25 Gorffennaf 2007* |
| *Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *27 Gorffennaf 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Awst 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Maent yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y pwerau a roddwyd gan yr adran honno:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol (Cymru) (Diwygio) 2007.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 28 Awst 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1), yn lle'r diffiniad o "Directive 92/33/EEC" rhodder—

""Directive 92/33/EEC" means Council Directive 92/33/EEC on the marketing of vegetable propagating and planting material other than seed;"(**4**).

(3) Yn rheoliad 3 (deunyddiau planhigion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt)—

(a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "Schedule 1" rhodder "Annex II to Directive 92/33/EEC";

(b) ym mharagraff (1)(b), yn lle "Schedule 1" rhodder "that Annex".

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn i'w harfer gan Weinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p.68.

(**3**) O.S. 1995/2652.

(**4**) OJ Rhif L 157, 10.6.1992, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/124/EC, OJ Rhif L 339, 6.12.2006, t. 12.

(4) Yn rheoliad 8 (gwybodaeth i fynd gyda'r deunyddiau planhigion)—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "Council Directive 77/93/EEC" rhodder "Council Directive 2000/29/EC"(**5**);

(b) ym mharagraff (4), yn lle "Schedule 1" rhodder "Schedule 2".

(5) Hepgorer Atodlen 1 (genera a rhywogaethau y mae Rheoliadau yn gymwys iddynt).

*I. W. Jones*
Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

25 Gorffennaf 2007

(**5**) OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/35/EC, OJ Rhif L 88, 25.3.2006, t.9.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn dod i rym ar 28 Awst 2007. Maent yn diwygio Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995 (O.S. 1995/2652) ("y prif Reoliadau"), i ddiweddaru'r rhestr o genera a rhywogaethau deunyddiau planhigion y mae'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddynt. Mae hyn yn rhoi ei heffaith i Erthygl 1 o Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/124/EC (OJ Rhif L 339, 6.12.2006, t.12) sy'n diwygio Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/33/EEC (OJ Rhif L 157, 10.6.1992, t.1) ar farchnata deunyddiau lluosogi a phlannu llysieuol ac eithrio hadau, drwy estyn cwmpas yr Atodiad hwnnw i Zea Mays L. (popgorn ac india-corn).

Yn ychwanegol at fân ddiwygiadau a diwygiadau drafftio, mae rheoliad 2 yn darparu bod y prif Reoliadau yn gymwys i'r rhestr o genera a rhywogaethau yn Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/33/EEC.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gyflawni mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau o'r asesiad hwnnw oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.